# YSGOL GYMRAEG PEN-Y-GROES

# ANNUAL REPORT TO PARENTS BY THE GOVERNING BODY
# 2017/2018

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes yn unol â Rheoliadau Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen am flwyddyn lwyddiannus ein hysgol. Mae croeso i chi gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Pennaeth os ydych am gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth, neu os hoffech gynnig sylw ar yr adroddiad hwn.

Yn gywir

Mike Landers

Cadeirydd.

Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes,

Bryn Celyn,

Caerdydd, CF23 7EH

CYNNWYS


Gair gan Gadeirydd y Corff Llywodraethu 1

Llywodraethwyr ysgol 2

Gwybodaeth am yr ysgol 3

Datblygiadau Cwricwlwm 4

Gweithgareddau amrywiol 5

Presenoldeb ac absenoldebau 6

Asesiadau athrawon Cyfnod Sylfaen 2015 7

Trosolwg o ganlyniadau Profion Cenedlaethol 2015 8

Datganiad ariannol 9

## 1. Gair gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol

Mae'n bleser mawr gennyf allu cyflwyno Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr eleni Hoffai'r Llywodraethwyr ddiolch i Mrs Fenner a phob aelod o'r staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu ar gyfer eu harweinyddiaeth gref ac ymroddiad parhaus, cefnogaeth ac ymrwymiad i'r Ysgol. Rydym yn elwa ar nifer fawr o staff cynorthwyol gweithgar gan gynnwys ein gweinyddwr swyddfa, staff y gegin, ein gofalwr a'n glanhawyr. Maent yn gweithio'n gadarn ar ran yr Ysgol.

Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'm gyd-lywodraethwyr a roddodd gymaint o amser drwy gydol y cyfnod hwn. Hoffwn gydnabod gwaith caled fy nghydweithwyr ar y Corff Llywodraethol sy'n parhau i weithredu'n bennaf drwy waith caled ei is-bwyllgorau. Mae Cynllun Gwella'r ysgol a materion cyllid yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod Llywodraethwyr. Rydym wedi croesawu Mr Mathew Pugh I'r Corff Llywodraethol fel Cynrychiolydd Rieni ac I Samsunear Ali fel cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol. Mae uchafbwyntiau eleni yn cynnwys canlyniadau ardderchog ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 gyda phob plentyn yn cyrraedd Lefel 4 neu'n uwch yng nghanlyniadau Cyfnod Allweddol 2 a thros hanner y disgyblion yn cyflawni Lefel 5 neu Lefel 6 mewn Gwyddoniaeth. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol mae ein disgyblion wedi cyflawni'r canlyniad 100% hwn yng NghA2.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth Miss Sweeney adael i deithio'r byd a phenodwyd Miss Indeg Williams ym mis Ebrill 2018. Croesawn Miss Williams ac edrychwn ymlaen at ei chyfraniad buddiol.

Mae'r Clwb Brecwast yn parhau i fod yn llwyddiannus a'r clybiau ar ôl ysgol wedi cynyddu i gynnwys Clwb pêl droed a chlwb Rygbi. Mae ymateb da o rieni yn allweddol i sicrhau parhad i'r mentrau yma. Mae ein cyflawniad a pherfformiad fel ysgol wedi cael ei grynhoi yn yr adroddiad canlynol.

Mae croeso i chi gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Pennaeth os ydych yn dymuno cael gwybodaeth ychwanegol, neu os hoffech wneud sylw am yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn ddathliad o'n cyflawniadau. Mae ein cymuned ysgol gyfan yn gweithio tuag at nod cyffredin: i roi addysg ardderchog i bob plentyn gan sicrhau eu bod yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Cofion cynnes,

Mike Landers

Cadeirydd y Corff Llywodraethol

2. <u>Llywodraethwyr ysgol</u>

| Corff Llywodraethol | | Cyfnod yn gorffen |
|---|---|---|
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | Mr Mike Landers,(Llywodraethwr Awdurdod Lleol)<br>Ysgol Gynradd Gymraeg Pen y Groes<br>Pentwyn, Caerdydd<br>CF23 7EH | 28.09.20 |
| Is-Gadeirydd | Della Williams (Rhiant) | 16.12.18 |
| Pennaeth | Anne Fenner | |
| Clerc y llywodraethwyr | Brett Jones<br>Ysgol Gynradd Gymraeg Pen y Groes<br>Pentwyn, Caerdydd<br>**CF23 7EH** | |
| Rhiant llywodraethwyr | Mathew Pugh | 06.11.21 |
| | Caroline Martell-Jones | 16.12.18 |
| | Kerri Evans | 04.03.19 |
| Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol | Ailsa Newton | 25.11.20 |
| | Samsunear Ali | 24.03.21 |
| Llywodraethwyr Cymunedol | Anona Harries | 03.02.21 |
| | Pamela Williams | 19.10.20 |
| | Sarah Willis | 01.02.21 |
| Llywodraethwyr staff | Nia McGuffie (Cynrychiolydd Staff Addysgu) | 07.10.18 |
| | (Cynrychiolydd staff cynorthwyol) | |

<u>Is-bwyllgorau y Corff Llywodraethol</u>

Disgyblaeth a gwahardd disgyblion : Mr Mike Landers, Mrs Kerri Evans, Ms Anona Harries

Disgyblu staff a Diswyddo : Mrs Caroline Martell-Jones, Dr Della Williams, Mrs Pam Williams

Cyllid a Staffio: Mr Mike Landers, Dr Della Williams, Mrs Anne Fenner, Mr Mathew Pugh

Adeiladau/Iechyd a Diogelwch:MS Caroline Martell-Jones, Mrs Anne Fenner, Mrs Pam Williams, Mrs Sarah willis, Ms Anona Harries

Rheoli Perfformiad / Adolygiad Cyflog : Mr Mike Landers, Mrs Kerri Evans, Mrs Caroline Martell–Jones

Achosion o gwyno : Mrs Sarah Willis, Dr Della Williams , Ms Kerri Evans, Ms Anona Harries

Cwynion cyffredinol: Mrs Pam Williams, Ms Anona Harries, Ms Ailsa Newton

## 2. Gwybodaeth am yr ysgol

### Staffio 2017-2018

Meithrin : Mrs M Williams (A) Mrs K Rees (CDD)

Derbyn: Miss S Sweeney(Medi-Rhag) Mr Hughes (Ion-Ebr), Miss Williams (Ebr-Gorff (A) Miss L Bailey (CDD)

Bl 1 : Miss C Evans (A) Miss A Beer (CDD)

Bl 2 : Mrs S Giles (A) Mrs L Gallivan (CDD) Mr R Lewis (CDD)

Bl 3 a 4 : Mr A Lewis (A)

Bl 5 a 6 : Mrs N McGuffie (A) Mrs C Evans (A)

ALNCo: Mrs N McGuffie

Athrawon CPA Mrs C Evans a Mrs M Williams

Ganolfan Les : Mr G Jones (A) Mrs C Canham (CDD)

Clerc ysgol : Mrs R Morgan

### Ymgynghorydd Her y Consortiwm : Mrs Meinir Howells

Niferoedd disgyblion —Medi 2017

Meithrin: 13

Derbyn : 15

Bl 1 : 28

Bl 2 : 13

Bl 3 : 10

Bl 4 : 10

Bl 5 : 11

Bl 6 : 13

Dyddiadau Tymor 2018—2019

| Tymor | Cychwyn | Hanner Tymor | | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| **Tymor yr Hydref** | Dydd Iau 3 Medi 2018 | Dydd Llun 29 Hydref 2018 | Dydd Gwener 2 Tachwedd 2018 | Dydd Gwener 21 Rhagfyr 2018 |
| **Tymor y Gwanwyn** | Dydd Llun 7 Ionawr 2019 | Dydd Llun 25 Chwefror 2019 | Dydd Gwener 1 Mawrth 2019 | Dydd Gwener 12 Ebrill 2019 |
| **Tymor yr Haf** | Dydd Llun Ebrill 29 2019 | Dydd Llun 27 Mai 2019 | Dydd Gwener 31 Mai 2019 | Dydd Llun 22 Gorffennaf 2019 |

**Gwyl y Banc : Llun 6ed o Fai 2019**

**Trefniadaeth/Sefydliad Ysgol**

Math: Cynradd

Ystod Oedran: 4-11

Amser dysgu'r wythnos: Cyfnod Sylfaen: 22 awr a 30 munud

Cyfnod Allweddol 2: 22 awr a 55 munud

**4. Datblygiadau'r Cwricwlwm**

Ym mis Ionawr 2017 cafodd bob ysgol ei gategoreiddio fel lliw yn seiliedig ar ddata'r tair blynedd flaenorol. Mae'r ysgol wedi cael ei chategoreiddio yn seiliedig ar ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Ar gyfer Ionawr 2017/18 mae'r ysgol wedi codi o felyn i wyrdd.

**Asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen**

Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn cael eu hasesu ar Ddeilliannau o fewn Datblygiad Iaith, Datblygiad Mathemategol a Datblygiad Personol a Chymdeithasol.

Mae adroddiadau cymharol i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn yn ogystal â pherfformiad yr ysgol ym mhrofion Cenedlaethol 2018.

**Asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2**

Caiff disgyblion Blwyddyn 6 eu hasesu ar lefelau diwedd cyfnod a lefel yn cael ei bennu yn y Gymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Mathemateg. Mae adroddiadau cymharol i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn yn ogystal â pherfformiad yr ysgol ym mhrofion Cenedlaethol 2017.

**Ysgolion Iach**

Mae'r ysgol wedi cyflawni cam 3 o'r rhaglen ysgolion iach ac yn hybu bwyta'n iach ar draws yr ysgol. Yn ystod ein diwrnod bwyta'n iach bu'r plant yn dysgu am y plât bwyta'n iach ac am sut i edrych ar ôl eu cyrff.

Mae'r plant yn y Cyfnod Sylfaen yn derbyn darn o ffrwyth yn ddyddiol ac yn derbyn llaeth am ddim. Yng Nghyfnod Allweddol 2 mae'r plant yn cael eu hybu i ddod a ffrwyth i'r ysgol yn ddyddiol i'w fwyta yn ystod amser chwarae.

Rydym yn hybu bob disgybl hefyd i ddod â photel o ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol. Mae dŵr yfed ar gael i bob plentyn trwy gydol y dydd.

Trefnir nifer o weithgareddau chwaraeon yn ystod y flwyddyn gyda chlybiau ar ôl ysgol ac am y tro cyntaf rydym wedi bod yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gemau a chystadlaethau pêl droed a rygbi. Yn ogystal cafodd ddisgyblion blwyddyn 3-6 gyfle i gyd-weithio gyda Chlwb Pêl Droed Caerdydd er mwyn datblygu eu sgiliau pêl droed ymhellach.

Mae Addysg Iechyd yn elfen allweddol ac annatod o'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion er mwyn eu haddysgu ac annog eu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag iechyd. Yn sgil hyn maent yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol a'r agwedd gywir sy'n arwain at fywyd cyfrifol ac iachus.

Addysgir Addysg Ryw a Chamddefnyddio Sylweddau fel rhan o Addysg Iechyd yr ysgol ar gyfnodau sy'n addas yn natblygiad y disgyblon.

**Siarter Iaith/Wythnos Cymru Cŵl**

Llwyddodd yr ysgol i ennill y Wobr Efydd ar gyfer Siarter Cymru sy'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cynhaliodd yr ysgol amryw o weithgareddau trwy gydol y flwyddyn gydag ymweliadau gan Seren a Sbarc, Martyn Geraint, Chris Czekaj, a Tudur Phillips. Roedd 'Anghenfil y Dwyrain' wedi amharu ar ein hwythnos Cymru Cŵl ond fe wnaethom lwyddo i sicrhau bod y disgyblion yn dysgu hanes a thraddodiadau Cymru. Anogwyd y plant i fod yn falch o'u treftadaeth a'r gallu sydd ganddynt i siarad Cymraeg. Wnaethom lwyddo i gynnal Eisteddfod yr ysgol lle enillodd Iona Harness o flwyddyn 6 y Gadair.

Diwrnod T.Llew Jones

I ddathlu gwaith un o awduron enwocaf Cymru cafodd y disgyblion gyfle i wisgo i fyny fel cymeriadau o'i lyfrau, yn ogystal â dysgu am ei fywyd, ei gerddi a'i straeon.

Diwrnod Masnach Deg

Yn ystod ein diwrnod Masnach Deg, dysgodd y disgyblion am bwysigrwydd prynu nwyddau Masnach Deg a sut y cynhyrchir cynhyrchion Masnach Deg. Cymerodd y disgyblion ran mewn nifer o weithgareddau a buont yn dysgu am sut mae cynhyrchion Masnach Deg yn fuddiol i les byd-eang a dinasyddiaeth.

Diwrnod E-Ddiogelwch

Cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod e-ddiogelwch a chyflawnodd y disgyblion amrywiaeth o weithgareddau dysgu a thrafod. Cefnogodd y Dewiniau Digidol Miss Evans i gynnal sesiwn wybodaeth i rieni yn trafod E-Ddiogelwch a dangosant y mathau o weithgareddau y mae'r disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol

Ymweliadau ac Ymwelwyr

Trefnwyd ymweliadau addysgiadol ar gyfer y disgyblion ac aeth y Cyfnod Sylfaen i Barc Bute a chymryd rhan mewn sesiwn 'Jousting' yng Nghastell Caerdydd.

Roedd ymweliadau Cyfnod Allweddol 2 yn cynnwys ymweld â'r ardal leol, dysgu am Daith y Gymraeg yn yr Hen Lyfrgell, Llancaiach Fawr a Llyfrgell Llanedeyrn.

Treuliodd disgyblion Blwyddyn 6 yr wythnos hefyd yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog lle daethant i adnabod disgyblion o ysgolion Cynradd eraill yng nghlwstwr Bro Edern.

Daeth amrywiaeth o ymwelwyr i siarad â'r plant; roedd y rhain yn cynnwys Adam Coleman a gyflwynodd gwasanaeth ysgol, y llyfrgellydd lleol a drafododd Gynllun Darllen yr Haf a dosbarthwyd tystysgrifau, Mr Kevin Davies (Gwasanaeth Diolchgarwch), Banc Bwyd Caerdydd a drafododd eu gwaith yn y gymuned. Roedd y disgyblion hefyd wedi mwynhau cyflwyniadau gan The Dogs Trust, Boulders, Stwnsh Sadwrn a Mad Science.

Roedd y disgyblion hefyd wedi elwa o ymwelwyr eraill i'r ysgol eleni, er enghraifft, roedd Cyfnod Allweddol 2 wedi mwynhau ymweliadau gan y Frigâd Dân a'r Heddlu. Cynhaliodd PC Nick Evans rai gwersi pwysig i'r disgyblion ar amrywiaeth o bynciau megis Stay Smart, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Chyfaill neu Gelyn (Perthynas ddiogel).

Derbyniodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 gyfres o wersi beicio yn ystod tymor yr haf a mwynhaodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 sioe gan 'Mewn Cymeriad' yn dysgu am Henry Tudur. Fe wnaeth ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 wella eu medrau creadigol trwy gymryd rhan mewn gweithdy celf papur gan yr arlunydd Danielle Sullivan.

Daeth disgyblion Blwyddyn 1 yn sêr y sgrin pan gafwyd eu ffilmio ar gyfer rhaglen ar S4C Cyw a chymerodd 5 disgybl ran mewn gweithdy Dawns yn Ysgol Bro Eirwg. Daeth grŵp o ddisgyblion 5 a 6 yn 'Glustiau Caredig' eleni ar ôl cael hyfforddiant gan Bartneriaeth Ymagweddau Adferol Cymru.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad i rieni eleni pan gynhaliwyd bore Coffi Macmillan a chodwyd £168.20 ac roedd disgyblion blwyddyn 1 wedi cynnal Caffi ar gyfer eu rhieni gan greu cebabs ffrwythau blasus a salad ffrwythau.

Gweithiodd Miss Rhian Shannon bob wythnos gyda disgyblion blwyddyn 6 yn addysgu Ffrangeg wrth baratoi ar gyfer Bro Edern.

Treuliodd Blwyddyn 6 ychydig ddyddiau hefyd yn Ysgol Bro Edern fel rhan o'u gwaith Pontio wrth baratoi ar gyfer pryd y byddant yn dechrau'r ysgol ym mis Medi 2018.

Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yn sgìl polisi'r ysgol ar nodi disgyblion gydag AY y nifer o ddisgyblion a gofrestrwyd ar bob cam o'r Cod Ymarfer, fel yr oedd ym mis Gorffennaf 2018 oedd:29%

Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes yn ysgol gynhwysol ac mae ymyrraeth ar unrhyw achlysur o fewn cyd-destun ddarpariaeth ysgol gyfan.

Mae'r ymateb graddedig sy'n benodol ar gyfer AY yn adnabod yr angen am gontinwwm o anghenion. Mae cam 1 yn gynhwysiad effeithiol ysgol gyfan ar gyfer disgyblion gydag AY ac mae unrhyw strategaethau cefnogaeth ar gyfer unigolion yn cael eu gweithredu gan yr athrawes ddosbarth.

Gweithredu Ysgol (GY)
Os nad yw'r disgybl yn gwneud cynnydd neu ond yn gwneud ychydig o gynnydd ar gam 1 byddant yn cael ei gosod ar GY.  Ar y cam yma fe fydd y disgybl yn derbyn Cynllun Addysgiadol Unigol neu Gynllun Ymddygiad Unigol(CAU/CYU) sydd yn cynnwys 3 targed. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n dymhorol.

Gweithredu Ysgol + (GY+)
Os nad oes cynnydd digonol yn cael ei wneud ar GY, mae'r SENCo, mewn cydweithrediad gyda'r rhieni / gwarchodwyr yn dod i'r casgliad bod angen cymorth ac arweiniad ychwanegol. Fe fydd y disgybl yn cael ei roi ar GY+ ac mae'r Ysgol yn ceisio am arweiniad allanol wrth athrawon arbenigol, iechyd neu'r gwasanaeth seicolegol addysg.

Datganiad
Mewn ychydig o achosion, mae'n bosibiliad bydd angen i'r ysgol ystyried, mewn cydweithrediad gyda'r rhieni ac asiantaethau allanol, bod angen asesiad statudol. Mae'r ysgol yn defnyddio canllawiau'r AL er mwyn cynorthwyo unrhyw benderfyniadau. Os oes gan y disgybl anghenion dwys, mae datganiad o anghenion ychwanegol yn cael ei gyhoeddi gan yr Awdurdod Lleol.

Mae gan bob plentyn sydd wedi ei gofrestru ar lefel Gweithredu gan Ysgol, neu fwy, Gynllun Addysg sy'n cael ei adolygu'n gyson i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol ac yn briodol. O ganlyniad, gall lefel anghenion disgybl newid i ddiwallu ei anghenion.
Mae'r staff yn parhau i fynychu cyrsiau, a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes AY.

Blaenoriaethau ysgol ar gyfer 2017/18:

BLAENORIAETH 1: Cau'r bwlch trwy dargedu grwpiau o blant a sicrhau eu bod yn cyrraedd y canlyniadau / lefelau gofynnol a thargedu ymhellach y lefelau uwch.

BLAENORIAETH 2: Sicrhau bod parhad y fframwaith cymhwysedd digidol yn cael ei weithredu trwy'r ysgol a datblygu ymhellach asesiad y Fframwaith

BLAENORIAETH 3: Gwella sgiliau ysgrifennu ar draws yr FP a CA2 sy'n targedu grwpiau penodol o fechgyn.

BLAENORIAETH 4: Codi safonau rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen a thargedu grwpiau penodol o blant i sicrhau cyflawniad pellach o ganlyniadau uwch.

5. Gweithgareddau amrywiol

Clybiau Allgyrsiol

Mae nifer o glybiau ar gyfer y disgyblion i gael mynediad yn ystod eu blwyddyn ysgol, mae'r rhain yn cynnwys clwb ukulele, clwb rygbi, clwb gymnasteg, clwb pêl-droed, clwb rhedeg, clwb pêl-rwyd, clwb perfformio a chlwb creadigol yr Urdd. Yng Nghlwb yr Urdd, cafodd y disgyblion y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon, crefft, cerddoriaeth a gemau. Diolch yn fawr i'r staff am eu gwaith caled. Mae rhai disgyblion hefyd yn cymryd rhan yn Mad Science Club a Judo Club a gynhelir gan asiantaethau allanol.

Clwb Brecwast Am Ddim Llywodraeth Cymru

Dechreuodd clwb brecwast am ddim yn yr ysgol ym mis Medi 2015. Pwrpas y clwb brecwast yw cynnig brecwast i ddisgyblion ni fyddai fel arall yn derbyn brecwast cyn ysgol.

Digwyddiadau Elusennau

Roedd y plant yn gwisgo smotiau er mwyn codi arian ar gyfer Plant mewn Angen a chodwyd £ 98.75. Cododd fore coffi Macmillan £ 168.20. Cododd y disgyblion £ 350 hefyd i'r apêl Owen Thomas sef disgybl Ysgol Bro Edern angen triniaeth ganser yn America. Diolch am eich holl roddion.

Ffrindiau

Cafodd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon flwyddyn lwyddiannus iawn o godi arian unwaith eto. Eleni, roeddem yn gallu talu am ganopi i'r iard gan sicrhau bod digon o gysgod i ddisgyblion yn ystod misoedd yr haf. Diolch yn fawr i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith threfnu ac ar gyfer eich holl gyfraniadau i'r digwyddiadau hyn. Gweler yma restr o ddigwyddiadau a faint a godwyd gennym: Disco Calan Gaeaf £ 150, Panto Nadolig £ 845.30, Canu yn SSE £ 212.20, Gwasanaeth Carolau Nadolig £39.70, Gwerthiant Calendrau £ 147.70, Gwerthiant Cacen Santes Dwynwen £ 100.80, Helfa Wyau Pasg £372.65, Noson Sinema £141.71, Ffair Haf £ 436.49, cyngerdd Blwyddyn 6 £ 292. Cyfanswm ar gyfer 2017-2018: £ 2738.55. Diolch yn fawr iawn.

Ysgol Bro Edern

Rydym ni fel ysgol wedi datblygu cysylltiadau cryf iawn gydag Ysgol Bro Edern ac rydym wedi bod yn rhan o nifer o weithgorau gyda staff o Fro Edern a'r ysgolion eraill yng nghlwstwr Bro Edern. Cynhaliwyd diwrnod Anghenion Dysgu Ychwanegol ym Mro Edern ar gyfer holl staff yr ysgol clwstwr. Croesawyd disgyblion Ysgol Bro Edern sy'n cwblhau'r BAC Cymreig a bu grwpiau o blant yn gweithio gyda disgyblion wrth ddatblygu eu sgiliau AG. Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi treulio 5 diwrnod yn Ysgol Bro Edern fel rhan o'u hysgol Pontio i ‘r Uwchradd.

Gweithgareddau Chwaraeon

Yn ystod amser cinio mae staff yn bresennol i chwarae gemau ac yn annog medrau iaith a sgiliau personol a chymdeithasol y plant. Cynhaliwyd diwrnod mabolgampau llwyddiannus iawn eleni gyda'r holl ddisgyblion yn arddangos eu sgiliau chwaraeon gyda thîm Celyn yn ennill eleni. Cymerodd y disgyblion ran mewn nifer o dwrnameintiau chwaraeon eleni gyda thîm bechgyn a merched yn cymryd rhan yn nhwrnamaint pêl-droed Bryn Hafod a daethant yn 2il yn y ddau ddigwyddiad. Cymerodd y disgyblion ran yng Nghystadleuaeth Bêl-droed yr Urdd a Thwrnamaint Rygbi Tag gan ennill ein tlws cyntaf. Mae'r disgyblion hefyd wedi mwynhau cymryd rhan mewn cystadlaethau cyfeillgar gydag ysgolion eraill mewn pêl-droed, sef Ysgol Gynradd Bryn Celyn ac Ysgol Glan Ceubal gan ennill y ddwy gêm. Cymerodd llawer o ddisgyblion ran hefyd yn nhwrnamaint Pêl-rwyd a Rygbi Bro Edern. Diolch i'r holl staff dan sylw. Hoffem ddiolch hefyd i 'Carhys' am noddi pecyn pêl-droed i'r ysgol. Trefnodd Miss Williams ddiwrnod ffitrwydd i'r holl ddisgyblion yn nhymor yr haf, a bu’r diwrnod yn llwyddiant mawr.

Gweithio gydag ysgolion eraill

Mae'r ysgol wedi gweithio gyda llawer o ysgolion a disgyblion eraill eleni. Mynychodd ddisgyblion o'r ysgolion clwstwr ddau ddiwrnod Mwy Abl a Thalentog a gynhaliwyd ym Mhen-y-Groes lle daeth y disgyblion yn newyddiaduron am y diwrnod ac yn ystod yr ail ddiwrnod bu'r disgyblion yn gweithio trwy rai problemau Mathemateg heriol. Cymerodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 ran mewn rhai gweithgareddau entrepreneuriaid a arweiniodd at gystadleuaeth rhyngddynt hwy a 7 ysgol arall fel rhan o Grŵp Gwella Ysgolion Nghonsortiwm Canolbarth y De. Dilynodd y diwrnod fformat 'Dragon's Den' gyda'r tîm a oedd gyda'r cynnyrch gorau a'r syniad busnes gorau yn ennill.. Cymerodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ran yng nghystadleuaeth Mathemateg Sumdog Caerdydd a daeth Blwyddyn 5 yn 1af a blwyddyn 6 yn ail. Daeth Hana 2K I'r ysgol am ddiwrnod yn gweithio gyda disgyblion o'r ysgolion clwstwr i greu cân i'n Siarter Iaith. Edrychwn ymlaen at ddysgu'r gân y flwyddyn nesaf. Mynychodd disgyblion Blwyddyn 5 ddiwrnod yn Ysgol Bro Edern i ddatblygu eu gweithgareddau Gwyddoniaeth. Bu Mrs Evans yn hyfforddi staff o wahanol ysgolion er mwyn rannu'r holl arfer da o fewn ein hysgol a gafodd ei harddangos yn ystod ein diwrnodau Mwy Abl a Thalentog.

Cwis Llyfr

Aeth disgyblion blynyddoedd 5 a 6 i gystadlu eto yng Nghwis Llyfrau'r flwyddyn hon yn cystadlu yn erbyn llawer o ddisgyblion o bob rhan o Ysgolion Caerdydd ac roedd yn holl staff yn falch iawn ohonynt eto eleni.

Eisteddfod

Cafodd y rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfle i gymryd rhan yn yr Eisteddfod ysgol eleni, aeth llawer o ddisgyblion ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod y Clwstwr lle daeth yr ysgol am y tro cyntaf yn gyntaf yn yr ymgom a llefaru grŵp a sicrhawyd ein nod yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Da iawn i'r holl ddisgyblion a gymerodd ran eleni ac i'r holl staff am hyfforddi'r disgyblion.

Blwyddyn 6

Perfformiodd Blwyddyn 6 sioe ysgol wych ar ddiwedd y flwyddyn "Syrcas y Sêr", diolch i Mrs Evans am ysgrifennu'r caneuon a'r sgript, a threfnwyd parti ffarwel gan y rhieni a'r Ffrindiau. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn yr ysgol uwchradd.

Cysylltiadau â rhieni

Cynhaliodd pob dosbarth wasanaeth i rieni yn ystod y flwyddyn. Roedd y plant unwaith eto wedi diddanu rhieni a'u teuluoedd yn ein Cyngherddau Nadolig blynyddol. Cynhaliwyd nosweithiau cwricwlwm i rieni a oedd yn cynnwys E-ddiogelwch. Cynhaliwyd nosweithiau gwybodaeth ar gyfer rieni Blwyddyn 6 yn Llangrannog ac ar gyfer rhieni Derbyn a Meithrin newydd.

Rydym yn hyderus bod cysylltiadau cryf a chyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgol a rhieni trwy gyfrwng nosweithiau rhieni, adroddiadau blynyddol, diwrnodau agored a chylchlythyr yr ysgol.

Cysylltiadau â'r gymuned

Wrth berfformio unwaith eto yng Ngŵyl Tafwyl eleni yng Nghastell Caerdydd, gwelwyd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn diddanu a swyno rhieni a ffrindiau'r ysgol gyda'u medrau canu gwych. Cynhaliodd yr ysgol Gwasanaeth Diolchgarwch yn Nhymor yr Hydref a chafodd yr holl fwyd a gesglir ei roi i Fanc Bwyd Caerdydd. Ymwelodd Mr Kevin Davies â'r ysgol i arwain y Gwasanaeth Diolchgarwch. Rydym yn croesawu llawer o weithwyr proffesiynol i'r ysgol, gan gynnwys seicolegwyr addysgol, gweithwyr iechyd a nyrsys, swyddogion cyllid a TGCh, athrawon ymgynghorol a swyddogion cyswllt. Siaradodd PC Evans â'r holl ddisgyblion ar wahanol bynciau a materion. Daeth y Llyfrgellydd lleol i drafod Her Darllen yr Haf gyda'r plant, lle cymerodd llawer o ddisgyblion ran. Roedd nifer o ddisgyblion yn cystadlu yn yr Eisteddfod ac roedd yn bleser gweld eu hyder ar y llwyfan. Aeth y plant allan i'r gymuned yn rheolaidd i ganu i aelodau hyn y gymuned yn Nhŷ Enfys, yn SSE SWALEC a hefyd i'r ieuengaf yn ein cymuned yn Eglwys Gymunedol Pontprennau i ganu i'r grwp Mam a Phlentyn.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes bolisi cyfle cyfartal ac mae'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth yn ymwybodol o'u dyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da. Mae'r ysgol yn cofnodi ac yn monitro digwyddiadau hiliol a sut y cânt eu datrys. Mae'r Corff Llywodraethol hefyd yn cael ei annog i adrodd ar y digwyddiadau hyn i ddisgyblion, rhieni a'r AALl. Am wybodaeth bellach gweler ddogfen Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Cefnogaeth a chynhwysiant cymdeithasol Disgyblion' Cylchlythyr 3/99 Cymru

Mae gan bob disgybl hawl i gwricwlwm eang a chytbwys waeth beth yw eu hanableddau. Mae'r ysgol yn ymdrechu i atal disgyblion anabl rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn rheolaidd i sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu. Mae gan yr ysgol bolisi strategol a chynllun hygyrchedd. Mae adeilad yr ysgol newydd yn cael mynediad da a thoiled i'r anabl. Nid oes unrhyw ddisgyblion anabl yn bresennol ar hyn o bryd.

6. Presenoldeb ac Absenoldebau

Targed Presenoldeb yr Ysgol oedd 95%. Ni chyflawnwyd hwn yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf gyda presenoldeb o 94.9%.

Absenoldeb heb eu hawdurdodi yw pan mae’r ysgol wedi rhoi caniatâd o flaen llaw neu ar ôl cyfnod i ffwrdd o’r ysgol i ddisgybl, ac sydd yn cael ei weld fel rheswm digonol ar gyfer yr absenoldeb.

Absenoldeb heb ganiatâd yw unrhyw gyfnod o absenoldeb o’r Ysgol oherwydd digwyddiad rhagfwriadol neu ddigymell gan y disgybl, y rhiant neu’r ddau. Mae hyn yn cynnwys absenoldebau sydd wedi ei ganiatáu gan riant.

Mae’r ysgol yn gweithio’n agos gyda’r Swyddog Presenoldeb yn arolygu absenoldebau disgyblion a hefyd yn gweithio gydag unrhyw deulu ble mae yna bryderon mewn perthynas â phresenoldeb trwy gynnig cymorth ac arweiniad.

Hysbysiadau Cosb Benodedig

Yng Nghymru, mae deddfwriaeth (Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru)2013) wedi rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) i rieni plant a phobl ifanc sy’n absennol o'r ysgol a/neu unedau cyfeirio disgyblion yn gyson, a hynny heb awdurdodiad.

Polisïau a Phrosbectws

Rhoddir Prosbectws i rieni pan dderbynnir disgyblion i'r ysgol am y tro cyntaf. Adolygir polisïau ysgol yn rheolaidd mewn ymgynghoriad â'r staff a'r llywodraethwyr. Mae'r holl bolisïau ar gael i'w gweld yn yr ysgol gan drefnu gyda'r Pennaeth o flaen llaw.

Adeiladau/ Iechyd a Diogelwch

Mae'r Llywodraethwyr yn falch iawn o'r ffordd y mae'r disgyblion ac ymwelwyr yn gwneud defnydd o'r adeilad. Mae'r adeilad yn un i fod yn falch ohono, gyda'r adnoddau modern diweddaraf. Mae'r plant yn ddiolchgar am yr holl waith ac mae'r amgylchedd yn cynnig cyfleoedd i bob plentyn. Mae angen i bob ymwelydd i'r ysgol fynd at y brif fynedfa er mwyn cael mynediad i'r adeilad ac i arwyddo mewn ac allan o'r safle. Mae pob iard ar dir yr ysgol yn addas a phob giât wedi'i chloi yn ddiogel yn ystod y dydd. Mae gan yr ysgol bolisi Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i holl staff, disgyblion ac ymwelwyr i'r ysgol.

Cyfleusterau

Mae gan yr ysgol y cyfleusterau toiled angenrheidiol i ddisgyblion mewn ysgol o'i maint ac maent yn cael eu glanhau a'u harchwilio ar ddechrau a diwedd pob diwrnod ysgol a thrwy gydol y dydd hefyd.

Cyllid

Mae datganiad ariannol y flwyddyn 2017/18 wedi ei atodi i'r adroddiad hwn a bydd gwybodaeth am y flwyddyn ysgol hon ar gael o'r ysgol yn ystod tymor y gwanwyn. Mae gwybodaeth ariannol yn ymwneud â'r ysgol ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol, ddim ond I chi drefnu gyda'r Pennaeth o flaen llaw.

Penderfyniadau

Nid oedd yna unrhyw benderfyniadau yn deillio o'r cyfarfod Adroddiad Blynyddol blwyddyn ddiwethaf.

Treuliau Llywodraethwyr

Ni chyflwynwyd ceisiadau am dreuliau.

ARGYMHELLION ESTYN 2012:

Blaenoriaeth 1: Codi safonau medrau ysgrifennu estynedig y plant yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm.

Blaenoriaeth 2: Gwella ansawdd yr addysgu.

Blaenoriaeth 3: Cryfhau'r gyfundrefn asesu ac asesu ar gyfer dysgu

Blaenoriaeth 4: Cryfhau'r gyfundrefn hunan arfarnu a sicrhau bod rhanddeiliaid yn rhan o'r broses

Blaenoriaeth 5: Datblygu rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol

Blaenoriaeth 6: Fel mater o frys, sicrhau sefydlogrwydd arweinyddiaeth yr ysgol

Mae'r ymweliad gan y tîm ESTYN yn ystod Gwanwyn 2014 yn dangos bod cynnydd da wedi ei gyflawni tuag at bob argymhelliad ac y mae'r yn mynd yn ôl i'r cylch arferol o Arolygiadau.

# Adroddiad Cymharol/Dilysiad yr Ysgol 2018 (Diwedd y Cyfnod Sylfaen - Disgyblion)

(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)

**Caerdydd**

Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-Y-Groes

| | | N | D | W | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 9.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 9.1 | 81.8 | 0.0 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.4* | *0.3* | *0.2* | *0.4* | *0.9* | *3.1* | *33.3* | *61.2* | *0.1* |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg)** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 9.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 81.8 | 9.1 | 0.0 |
| | *Cymru* | *0.0* | *0.2* | *0.1* | *0.1* | *0.2* | *0.9* | *7.7* | *52.8* | *38.0* | *0.0* |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.4* | *0.4* | *0.2* | *0.5* | *1.6* | *8.6* | *50.0* | *37.9* | *0.2* |
| **Datblygiad mathemategol** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 9.1 | 0.0 | 0.0 | 81.8 | 9.1 | 0.0 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.4* | *0.3* | *0.2* | *0.3* | *1.3* | *7.2* | *51.5* | *38.6* | *0.1* |

**Meysydd Dysgu Dewisol:**

| | | N | D | W | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygiad creadigol** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Datblygiad corfforol** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Datblygu'r Gymraeg** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |

DCS **

| | |
|---|---|
| Ysgol | 90.9 |
| *Cymru* | *87.3* |

# Adroddiad Cymharol/Dilysiad yr Ysgol 2018 (CA2 - Disgyblion)

(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)
**Caerdydd**
Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-Y-Groes

| | | N | D | NCO1 | NCO2 | NCO3 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6+ | 4+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Saesneg** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 58.3 | 41.7 | 0.0 | 100.0 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.4* | *0.1* | *0.1* | *0.2* | *0.4* | *1.4* | *6.3* | *46.4* | *43.0* | *1.7* | *91.1* |
| Llafaredd | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 58.3 | 41.7 | 0.0 | 100.0 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.4* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.4* | *1.2* | *6.2* | *45.4* | *44.0* | *2.0* | *91.4* |
| Darllen | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 66.7 | 33.3 | 0.0 | 100.0 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.4* | *0.1* | *0.1* | *0.2* | *0.4* | *1.4* | *6.8* | *45.0* | *43.6* | *1.9* | *90.5* |
| Ysgrifennu | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 8.3 | 58.3 | 33.3 | 0.0 | 91.7 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.4* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.5* | *1.8* | *10.3* | *50.0* | *35.2* | *1.4* | *86.6* |
| **Cymraeg Iaith Gyntaf** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 75.0 | 25.0 | 0.0 | 100.0 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.1* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.3* | *1.1* | *6.8* | *50.1* | *39.7* | *1.8* | *91.6* |
| Llafaredd | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 66.7 | 33.3 | 0.0 | 100.0 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.1* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.3* | *0.9* | *6.3* | *48.7* | *41.6* | *2.0* | *92.3* |
| Darllen | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 75.0 | 25.0 | 0.0 | 100.0 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.1* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.3* | *1.1* | *7.6* | *48.3* | *40.6* | *1.9* | *90.8* |
| Ysgrifennu | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 8.3 | 66.7 | 25.0 | 0.0 | 91.7 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.1* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.4* | *1.7* | *11.0* | *53.1* | *32.3* | *1.4* | *86.8* |
| **Mathemateg** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 66.7 | 33.3 | 0.0 | 100.0 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.4* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.4* | *1.2* | *6.0* | *44.6* | *45.3* | *1.8* | *91.6* |
| **Gwyddoniaeth** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 25.0 | 66.7 | 8.3 | 100.0 |
| | *Cymru* | *0.1* | *0.4* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.3* | *1.1* | *5.5* | *45.8* | *46.2* | *0.2* | *92.2* |

Dangosydd Pwnc Craidd **

| | |
|---|---|
| Ysgol | 100.0 |
| *Cymru* | *89.5* |

## Adroddiad Ariannol i Rieni 2017/2018

| Manylion | £ Cyllideb 2017/18 | £ Gwirioneddol 2017/18 |
|---|---|---|
| <u>Treuliau Gweithwyr</u> | | |
| Staff Addysgu | 388,646 | 419,333 |
| Staff Cynnal | 115,510 | 149,129 |
| Costau Staffio Eraill | 16,399 | 17,734 |
| | | |
| <u>Treuliau Eiddo</u> | | |
| Atgyweiriadau a Chynnal-a-Chadw | 9,781 | 4,620 |
| Costau Ynni | 8,640 | 12,493 |
| Costau Dŵr | 2,700 | 3,233 |
| Contract Glanhau | 21,690 | 20,137 |
| Llogi Cyfleusterau Chwaraeon | | |
| Gwasanaethau Sbwriel ac Amrywiol | | |
| | | |
| <u>Treuliau Cyflenwadau a Gwasanaethau</u> | | |
| Dodrefn | 0 | 0 |
| Deunyddiau Addysgu | 26,748 | 24,277 |
| Gemau a Gweithgareddau Ysgol | 2,500 | 3,362 |
| Prydau Ysgol ar gyfer Staff Dyletswydd | 2,000 | 1,707 |
| Ffioedd Arholiadau | 0 | 0 |
| Treuliau Swyddfa | 4,795 | 3,072 |
| Treuliau Teithio a Chynhaliaeth | 0 | 384 |
| Treuliau Llywodraethwyr | 1,000 | 1,623 |
| Unedau Gwasanaeth | 32,396 | 32,948 |
| Costau Eraill | 3,617 | 0 |
| **Gwariant Gros** | **636,422** | **694,053** |
| | | |
| <u>Incwm</u> | | |
| Defnydd / Llogi Cymunedol | 0 | 0 |
| Grantiau/Incwm Arall/Derbynebau | -64,034 | -151,702 |
| **Incwm Gros** | **-64,034** | **-151,702** |
| | | |
| Heb ei ddyrannu | 62,576 | 49,629 |
| | | |
| Gweddill a ddygwyd ymlaen | | 92,613 |
| | | |
| **Gwariant Net a Reolir gan yr Ysgol** | **634,964** | **634,964** |
| Cyfraddau | 0 | 0 |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | **634,964** | **634,964** |

| **Mae adnoddau ar gyfer AAA wedi'u dyrannu fel a ganlyn:-**<br>Mae'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ariannol uchod | **Cyllideb** | **Gwirioneddol** |
|---|---|---|
| Cyllid fformiwla ar gyfer darpariaeth AAA | | |
| Cyllid diprwyedig ar gyfer Uned Arbennig | | |
| Cyllid MLD Dirprwyedig | | |
| Cyllid PSS Dirprwyedig ar gyfer disgyblion unigol | | |
| Taliadau y Pen | | |

| **Gweddill ar 31.3.2xxx** | | |
|---|---|---|
| Gweddill na Fuddosddwyd | 92,613 | |
| Gweddill a Fuddsoddwyd | 0 | |
| | | |
| Cyfanswm Gweddill ar 31.3.2xxx | 92,613 | |